

Chwarae *dros* Gymru

Rhifyn 17

GAEAF 2005



Chwarae Cymru i ddod yn sefydliad aelodaeth yn 2006



Mae Chwarae Cymru bob amser wedi ceisio'n galed i ymrwymo gyda phawb sydd â diddordeb mewn chwarae plant ac i hyrwyddo darpariaeth chwarae, gwaith chwarae a chyfleoedd chwarae o safon uchel i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Felly er bod llawer o sefydliadau cyffelyb ym Mhrydain yn codi ffi aelodaeth, am yr wyth mlynedd ddiwethaf cafodd y rhan fwyaf o wasanaethau Chwarae Cymru eu darparu'n ddi-dâl.

Fodd bynnag mae'r byd yn symud ymlaen ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu y medrai Chwarae Cymru ymgymryd yn well â'i rôl gynrychioladol a chynnig amrediad o wasanaethau a buddion drwy ddatblygu aelodaeth gyffredinol.

Bwriadwn y bydd ein haelodau yn rhoi gwybodaeth ar gyfer ein hymatebion i ymgynghoriadau a chynlluniau, ac er y bydd y broses yn gymharol anffurfiol i ddechrau, credwn y bydd yn ein galluogi i ymateb yn fwy effeithlon i anghenion plant a darparwyr chwarae ym mhob rhan o'r wlad, a hefyd gynyddu ein hawdurdod wrth negodi a lloio yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym yn awr mewn sefyllfa i gynnig amrediad eang o fanteision i bawb sy'n dewis ymuno â Chwarae Cymru. Mae'r manteision hynny'n cynnwys:

- Cefnogaeth a chyngor arbenigol;
- Mynediad drwy Uned Cofnodion Troseddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i wiriadau di-dâl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer darpariaeth chwarae sector gwirfoddol rheoledig;
- Cyfraddau is ar gyfer hysbysebion mewn cylchlythyrau;
- Ffioedd is ar gyfer cynadleddau a seminarau;
- Cyfraddau is ar gyfer cyhoeddiadau Chwarae Cymru;
- Ffioedd ymgynghori is;
- Defnydd estynedig o'n hadnoddau gwybodaeth chwarae ar gyfer myfyrwyr ac ymchwilwyr;
- Cyfle i enwebu a chael enwebiad ar gyfer corff rheoli Chwarae Cymru; a
- Chyfle i fynegi eich barn fel rhan o forwm ymgynghorol genedlaethol.

Mwy > t2



GOLYGYDDOL

Mae ein cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein sicrhau y cyhoeddir y strategaeth chwarae genedlaethol hirddisgwyliedig cyn diwedd Ionawr. Ar yr un pryd mae cynlluniau'r Loteri Fawr a all ddarparu arian ar gyfer prosiectau yn gysylltiedig â chwaraeon yn dechrau prosesu ceisiadau, a chyhoeddir cynllun penodol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc yn 2006. Felly bwriadwn ehangu y gefnogaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan Chwarae Cymru er mwyn helpu darparwyr chwarae i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn, a bu'n gam naturiol i adolygu'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu.

Ar yr un pryd mae cynlluniau'r Loteri Fawr a fedrai ddarparu arian ar gyfer prosiectau yn gysylltiedig â chwarae yn dechrau prosesu ceisiadau, ac rydym yn dal i ragweld y cyhoeddir cynllun penodol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc yn 2006. Felly er mwyn helpu darparwyr chwarae i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn rydym yn cynllunio ymestyn y gefnogaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan Chwarae Cymru a bu'n gam naturiol i adolygu cyfansoddiad y sefydliad.

Fel ymddiriedolwyr, nid oedd y penderfyniad i newid Chwarae Cymru i sefydliad yn seiliedig ar aelodaeth yn un rhwydd – yn wir rydym wedi llwyddo i'w ohirio am nifer o flynyddoedd! Goruchwylw'n dîm bychan gyda llawer o waith i'w wneud, a'n dadl fu y byddai'n well defnyddio'r amser a gymerid i weinyddu'r cynllun o'r fath er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae safon uchel ar ran plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn fod llawer o'r rhai ar gronfa

ddata Chwarae Cymru yn annhebygol o fod ag arian dros ben i dalu am ffi aelodaeth i sefydliad anghysbell. Nes y byddem wedi cyflawni pethau sylweddol ac yn medru cynnig buddion diriaethol i amrediad eang o aelodau, roeddem yn anhapus i godi tâl am y gwasanaethau a gynigir gan Chwarae Cymru. Rydym hefyd yn glir iawn y bydd pobl a sefydliadau nad ydynt yn dewis dod yn aelodau yn dal i gael mynediad i wybodaeth ac arweiniad. Felly bydd y cylchlythyr hwn, er enghraifft, yn parhau i gael ei ddsbarthu yn ddi-dâl.

Fel sefydliad sy'n ymdrechu i adlewyrchu barn darparwyr chwarae yng Nghymru, buom bob amser yn anesmyth am gymryd rôl gynrychioliadol heb gyfeirio at gorff ymgynghori. Rydym yn ceisio bob amser i gadw'n clust yn agos at y ddaear wrth gwrs, ond y bwriad yw ymgynghori'n anffurfiol â'n haelodau, fel y medrwn ymateb yn fwy effeithlon i anghenion darparwyr chwarae ar

draws y wlad, a hefyd fod â'r awdurdod i negodi a lobbio ar lefel genedlaethol.

Wrth gwrs mae anghenion chwarae plant a phobl ifanc yn greiddiol i'n gwaith felly ymddengys yn iawn i ofyn i aelodau danysgrifio i ddogfennau sy'n rhoi chwarae yn gyntaf. Mae cysylltau i Bolisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar gael ar ein gwefan.

Gobeithiwn yn ddiffuant y bydd hwn yn gam cadarnhaol i bawb ohonom fel pobl chwarae yng Nghymru ac y bydd llawer o'n cydweithwyr a sefydliadau cysylltiedig yn teimlo awydd i ymuno.

Margaret Jervis
Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr
Chwarae Cymru

Chwarae Cymru i ddod yn sefydliad aelodaeth yn 2006 (parhad)

Bydd Chwarae Cymru yn parhau i lobbio dros chwarae a gwaith chwarae plant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol a Phrydeinig ac i gefnogi gweithwyr chwarae yn lleol a bydd rhai o'r gwasanaethau a ddarparwn yn parhau i fod yn ddi-dâl i rai ar ein cronfa ddata sy'n byw o fewn Cymru – er enghraifft dosbarthu ein cylchlythyr a hysbysebion swyddi ar ein gwefan. Fodd bynnag rhagwelwn yn y dyfodol y bydd rhai tudalennau 'aelodau'n unig' ar ein gwefan ac e-fwletinâu ac e-fforymau ar gyfer aelodau yn unig.

Yn ychwanegol at y ffi resymol tu hwnt ac er mwyn i ni rannu ein dealltwriaeth yn well o hanfod Chwarae Cymru, rydym hefyd yn gofyn i'n Haelodau gytuno i gymeradwyo'r hyn a gredwn sy'n ddau ddatganiad neilltuo o bwysig. Y cyntaf o'r datganiadau



yw Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ail yw'r Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Am y flwyddyn gyntaf, er mwyn i ni fedru mesur y galw a'r ymateb i'r cynllun hwn, a hefyd i leihau'r baich gweinyddol, rydym wedi gosod ffi aelodaeth syml o £25 i bawb sy'n dymuno ymuno fel aelodau cyffredinol. Mae'r ffi yma yn weithredol ar gyfer pawb o sefydliadau cenedlaethol ac adrannau awdurdodau lleol i gynghorau cymuned, colegau, prosiectau chwarae ac unigolion. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn gofyn i aelodau am eu barn ar sut y medrid datblygu ffioedd aelodaeth i adlewyrchu elfen o degwch.

SWYDDOG DATBLYGU (GOGLEDD CYMRU) – CYFLE SWYDD – GWELER TUDALEN 12

Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir gan Chwarae Cymru deirgwaith y flwyddyn. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn:

Chwarae Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: mail@playwales.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr yma. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Bydd Chwarae Cymru yn cynnwys mewnddodion a hysbysebion yn y cylchlythyr hwn (cysyllter â Kathy Muse yn y cyfeiriad uchod i gael prisiau) fodd bynnag, nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch neu'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk Lluniau cartwm gan Les Evans.

CYNNWYS

- Golygyddol T2
- Y Loteri Fawr yn rhoi cyllid i Chwarae yng Nghymru T3
- Ail-lansio Chwarae Sir Ddinbych T3
- Chwarae Cymru ar y Maes T3
- Newyddion Da i Ganolfan Caerffili T4
- Gweinidog ar Daith Chwarae T4
- Cyfeillion yng Nghynlluniau Chwarae Sir y Fflint T5
- Chwarae am Iechyd Bryn Gwalia T5
- Hwyl Diwrnod Chwarae ym Merthyr Tudful T6
- Parc Slefrïo Cruisers Talysarn T7
- Cynhadledd Ryngwladol yn Chwarae Tu Allan T8/9
- Beth Sydd mewn Enw? T10
- Aelod Newydd o'r Tim T10
- Mwd a Gwreichion T11
- Digwyddiadau/Cyllid/Newyddion T12

Y Loteri Fawr yn rhoi arian i Chwarae yng Nghymru

Ddiwedd mis Tachwedd cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei rhaglen Teuluoedd Egniol ac Iach a Chwarae Plant. Bydd y rhaglen yn darparu £20 miliwn i hyrwyddo iechyd a llesiant plant a phobl ifanc drwy gefnogi datblygiad chwarae plant, a hyrwyddo dynesiad cydlynol at faeth a gweithgaredd corfforol drwy waith gyda theuluoedd.

Mae'r Gronfa yn awyddus i wneud y cysylltiad strategol rhwng gweithgaredd corfforol, maeth a chwarae a bydd yn ymchwilio ffyrdd o hwyluso chwarae plant i hyrwyddo gweithgaredd corfforol ac i edrych sut y meddir ystyried materion maeth fel rhan o'r agenda chwarae.

Mae'r Gronfa yn cydnabod anghenion cymorth a datblygu gwahanol y ddau faes a dargedwyd gan y rhaglen. Bydd £13 miliwn ar gael i adeiladu'r seilwaith sy'n cefnogi datblygu chwarae plant ac i greu cynlluniau a chyfleusterau chwarae.

Bydd gan y rhaglen ddynesiad strategol yn anelu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau datblygu allweddol ar gyfer chwarae yng Nghymru.

Mae Pobl a Lleoedd yn rhaglen arall a lanswyd yn ddiweddar gan y Gronfa yng Nghymru a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer darpariaeth chwarae symudol, canolfannau adnoddau chwarae a meysydd chwarae antur.

Cronfa'r Loteri Fawr, Llawr 2, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB

Ffôn: 01686 611700

Ffôn testun: 01686 610205

E-bost: enquiries.wales@biglotteryfund.org

I gael pecynnau cais a gwybodaeth ar y rhaglenni hyn ffoniwch: 08454 10 20 30

Ail-lansio Chwarae Sir Ddinbych

Ail-lansiwyd Chwarae Sir Ddinbych yn dilyn cyfarfod o rai â diddordeb a gynhaliwyd ym Maes Chwarae Antur y Rhyl.

Cafwyd ymateb brwdfrydig i gyflwyniad gan Tony Chilton, ein Uwch Swyddog Datblygu ac roedd Bob Barton, aelod o Gyngor Sir Ddinbych, yn falch iawn i fedru ffurfio pwyllgor newydd. Er iddo gael ei sefydlu fel corff annibynnol yn ceisio statws elusennol, bydd y sefydliad

yn gweithio'n agos iawn gyda Chyngor Sir Ddinbych ac asiantaethau eraill, gyda phob bwriad o weithredu strategaeth chwarae i'r sir gyfan.

Swyddogion newydd Chwarae Sir Ddinbych yw: Bob Barton, Cadeirydd; Jonathon Bentley, Is-Gadeirydd; a Carol Holliday, Ysgrifennydd gyda chymorth naw o aelodau pwyllgor eraill.

Chwarae Cymru ar y Maes



Yn ystod yr haf, ymunodd Chwarae Cymru gyda Plant yng Nghymru a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i rannu stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cynhaliwyd Eisteddfod 2005 ar Stad y Faenol ym Mangor, a rhoddodd gyfle i ni ledaenu neges Chwarae Cymru, rhwydweithio gyda phobl o sefydliadau eraill a chwedd â'r cyhoedd, a gweld y math o ddarpariaeth chwarae oedd ar gael ar y maes. Roedd hefyd yn gyfle gwych i ymrwymo gyda'r cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i'r Diwrnod Chwarae gyda chymorth Marc Phillips, un o ymddiriedolwyr Chwarae Cymru sy'n Gyfarwyddyd Plant mewn Angen BBC Cymru ac yn aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cawsom gyfle i gwrdd a sgwrsio gydag amrediad eang o bobl a dosbarthu holiaduron yn gysylltiedig â chwarae, yn ogystal ag ychwanegu ein posteri gemau plant i'r llwythi o bethau y mae plant yn eu casglu wrth fynd o amgylch o stondin i stondin i chwilio am y rhoddion gorau. Cafwyd bron i saith deg o arolygon eu llenwi gan blant 6-16 oed, oedd yn cynnwys cwestiynau am eu hoff fathau o weithgareddau chwarae a'r peth gorau am le maent yn chwarae. Dangosodd y canlyniadau mai'r tri phrif le y mae plant yn chwarae yw "yn y tŷ", "yn yr ysgol" ac "yn yr ardd" gyda rhai o'r hoff weithgareddau chwarae yn cynnwys chwarae gyda ffrindiau, llunio gemau, ceisio pethau newydd a chwarae gyda dŵr. Dro ar ôl tro cyfeiriodd plant at "digonedd o le" fel y peth gorau am le maent yn chwarae, dywedodd un ymatebydd yn syml "digonedd o le, caeau pêl droed, meinciau a choed".

Bu'r ymweliad yn llwyddiant mawr ac rydym eisoes yn paratoi ar gyfer Eisteddfod y flwyddyn nesaf yn Abertawe.

Os hoffech wybodaeth bellach am Eisteddfod Genedlaethol 2006, gweler eu gwefan www.eisteddfod.org.uk

Newyddion da i Ganolfan Caerffili

Fel rhan o'n cyfres o erthyglau am ddatblygu canolfannau plant integredig ledled Cymru, dywed Mike Allman, Gweithiwr Datblygu Chwarae Antur, beth sy'n digwydd yng Nghaerffili.

Cefais fy nghyflogi yn Weithiwr Datblygu Chwarae Antur ers mis Mai 2005 i ddatblygu elfen chwarae mynediad agored Canolfan Blant Integredig Caerffili, y ganolfan gyntaf i'w hariannu gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd/Loteri Fawr, a agorwyd ym mis Medi 2004.

Mae'r Ganolfan yn seiliedig mewn ysgol gynradd fawr newydd yn Nhrefegar Newydd, ardal lofaol draddodiadol gyda phoblogaeth wedi gwasgaru ar ddwy ochr y cwm. Dyma'r nawfed cymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) ac mae'n un o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Un o anawsterau gweithio mewn ardal o'r fath yw ei fod wedi ei ffurfio o gymunedau neilltuol a gwahanol, pob un gyda'u hymdeimlad o hunaniaeth ei hunan, a all arwain at yr hyn y medrid ei weld fel ynysoldeb.

Pan ddechreuais weithio, yn ogystal â'r cylch arferol o gyfarfodydd a dechrau sefydlu perthynas gyda phobl yn y gymuned, penderfynais gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yn yr ardal. Fe'i cynhaliwyd mewn dwy ysgol ac yn y llyfrgell gyhoeddus. Helpodd hyn i ganfod lle'r oeddent yn chwarae, yr hyn yr oeddent yn ei wneud ar ôl mynd allan i chwarae, ac unrhyw syniadau a fedrai fod ganddynt ar gyfer gwella cyfleoedd chwarae yn yr ardal. Fe'm helpodd hefyd i fy nghyflwyno fy hunan ac esbonio fy rôl i blant a phobl ifanc.

Dull arall oedd gweithio gyda Chlwb Ar ôl Ysgol y Ganolfan. Roedd hyn yn neilltuol o ddefnyddiol gan y'i ystyriaf yn rhan o fy swyddogaeth i gyflwyno cyfleoedd chwarae antur i bob maes o berson plentyn/person ifanc. Drwy wneud hyn medraf gefnogi gweithwyr proffesiynol eraill i gaffael y sgiliau a'r hyder i hwyluso cyfleoedd chwarae a chwarae antur a ddewiswyd yn rhydd.



Roedd ein sesiynau chwarae gwyliau haf – a drefnwyd mewn partneriaeth gyda phrosiect Chwarae Creadigol Caerffili – yn wych! Medrais hyd yn oed ddenu'r Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf lleol allan o'r swyddfa i ymuno a chwarae gyda ni. Mwynhaodd plant a phobl ifanc adeiladu cuddfannau; newid ac addasu'r amgylchedd i greu ardaloedd chwarae cyfoethog a heriol – er enghraifft hongian siglenni teiers o fframiau siglenni gwag, creu rhodfa rhaff ar fframiau dysgu ac offer chwarae sefydlog; a chwarae elfennol yn cynnwys llithren ddŵr 50 metr!

Yn ystod hanner tymor mis Hydref trefnais Ddiwrnod Chwarae Elfennau ar dir y Ganolfan, eto wedi'i gefnogi gan chwarae Creadigol Caerffili a hefyd Sarah, Cydlynnydd y Ganolfan, a staff gofal plant y Ganolfan, gweithwyr ieuencid lleol Cymunedau'n Gyntaf ac fe gawsom hefyd y Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol lleol i ddod a chwarae gyda ni. Roedd y Diwrnod Chwarae yn cynnwys ardal dân wedi'i staffio gan geidwaid cefn gwlad lleol, gwneud barcutiaid, ac artist lleol yn cymysgu dŵr a phridd i wneud clai modelu naturiol a hefyd fwd, llwythi o fwd, ym mhob man!

Efallai eich bod wedi sylwi mai thema fy ngwaith fu gweithio mewn partneriaeth gydag eraill sydd eisoes yn gweithio yn y gymuned a gyda'r gymuned. Bu hyn yn ddefnyddiol wrth fy helpu i fedru cyflenwi gwasanaethau a hefyd i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r hyn yw chwarae ac antur chwarae a sut deimlad yw hi i fod yn weithiwr chwarae.

Ac yn olaf ond nid yn lleiaf, y newyddion da yw ein bod o Ebrill '06 wedi sicrhau cyllid Cymorth ar gyfer pedwar gweithiwr chwarae i gyflenwi'r gwasanaeth Chwarae Mynediad Agored.

Gweinidog ar Daith Chwarae

Gall pawb fod ar eu hennill pan fo Gwleidyddion yn gweld gwerth prosiectau chwarae – maent yn ennill gwell dealltwriaeth o amgylchedd chwarae plant, ac felly'n gwneud cyfraniadau mwy gwybodus i brosesau gwneud penderfyniadau am chwarae. Felly ewch ati – ysgrifennwch y gwahoddiadau!

Ers ail-drefnu'r cabinet a ychwanegodd chwarae i gylich gwaith y Gweinidog Addysg, mae Jane Davidson wedi dangos ymrwymiad parhaol i'n Polisi Chwarae cenedlaethol a phwysigrwydd chwarae yn gyffredinol. Nid yw hyn yn syndod gan ei bod yn ymwneud â sefydlu darpariaeth chwarae mewn gyrfa flaenorol. Serch hynny, roeddem wrth ein bodd pan wirfoddolodd y Gweinidog amser i fynd am daith o amgylch prosiectau chwarae

mynediad agored gyda staff ledled Cymru.

Treuliodd Jane Ddiwrnod Chwarae Cenedlaethol 2005 yn Abertawe lle, yng nghwmni cydweithwyr eraill o'r Cynulliad, ymwelodd â chynlluniau chwarae gwyliau yn Ysgol Santes Monica a Llandeilo Ferwallt. Ymwelodd hefyd â maes chwarae antur Canolfan Blant Integredig Abertawe ym Mhenlan:

“Roedd yn dda iawn cael cydnabyddiaeth o'n gwaith ym Mhenlan,” meddai Ben Greenaway o Chwarae lawn. “Gwnaeth argraff ar y Gweinidog y gall plant chwarae mewn amgylchedd naturiol gyda mynediad i'r holl elfennau”.

Roedd taith y Gweinidog yn y De hefyd yn cynnwys Canolfan Chwarae Trelái (rhan o ddatblygiad Canolfannau Plant Integredig yn

Nghaerdydd) a chynllun chwarae all-estyn mewn canolfan ieuencid yn Nhrelái – caiff y ddau brosiect eu cefnogi gan Wasanaethau Chwarae Plant Caerdydd. Oddi yno, teithiodd Jane i'w hetholaeth i weld Canolfan Gymunedol Llan Rhondda Cynon Taf, sy'n sylfaen ar gyfer Prosiect Canolfan Integredig Plant Rhydfelin, a gefnogir gan Valleys Kids.

Yn y Gogledd cafodd y Gweinidog groeso cynnes gan y pwyllgor rheoli, staff a phlant Maes Chwarae Antur y Rhyl, lle bu hyd yn oed yn profi gwerth chwarae gwahanol eitemau! Mae nodweddion diddorol iawn ar y safle, llawer ohonynt wedi'u cynllunio a'u hadeiladu gan blant a staff dros flynyddoedd diweddar, ac mae'n amlwg iddynt wneud argraff fawr ar y Gweinidog.

Mae Chwarae Cymru yn hynod falch i Jane Davidson roi cymaint o'i hamser i ymweld â darpariaeth chwarae cymunedol gyda staff, ac rydym yn hyderus iddi fwynhau blas o'r cynfyd wrth wneud hynny!

Cynllun Cyfaill Sir y Fflint Cynlluniau Chwarae Haf

Datblygwyd cynllun Cyfaill Sir y Fflint i hyrwyddo hawl plant i chwarae drwy alluogi'r rhai gydag anghenion arbennig i gael mynediad i gynlluniau chwarae lleol. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng Uned Chwarae Sir y Fflint, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint a'r Gwasanaeth Integredig Anabledd Plant yn defnyddio cyllid CYMORTH gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol ar gyfer 'chwarae mynediad agored'.

Mae 68 o gynlluniau chwarae haf yn Sir y Fflint, ac maent oll â mynediad agored ac yn seiliedig ar 'hawl plant i chwarae'. Mae gennym agenda a arweinir gan blant sy'n anelu i ddarparu ar gyfer anghenion chwarae plant (yn hytrach nag agenda oedolion, er enghraifft lle darperir sesiynau strwythuredig i ateb anghenion oedolion ar gyfer gofal plant).

Caiff gweithwyr chwarae eu cyflogi a'u hyfforddi ar y sail y gall plant wneud eu trefniadau teithio eu hunain, i fynd a dod fel y mynnant ac i fynychu cynifer o sesiynau ag a ddymunant. FODD BYNNAG, mae hyn yn aml yn anfwriadol yn eithrio plant gydag anableddau oherwydd efallai nad yw eu rhieni a'u gofaliwyr yn gysurus am ganiatáu i'w plentyn fynychu ar y sail hwnnw. Felly mewn gwirionedd nid yw'r gwasanaeth yn gynhwysol oherwydd na all plant gydag anghenion arbennig fynychu.

Roeddem yn glir ein bod eisiau sefydlu gwasanaeth "cynhwysol", felly dynodwyd y problemau, anawsterau a'r rhwystrau sy'n atal rhai plant rhag cael mynediad i gyfleoedd chwarae. Penderfynwyd sefydlu cynllun peilot fel y medrem ennill parch ac ymddiriedaeth rhieni fel y medrai eu plant fynychu.

Yn ystod yr Haf cyflogwyd 'cyfeillion' o'r staff gwaith chwarae i weithio gyda grŵp bychan o blant gydag anghenion arbennig. Roedd rhai rhieni angen llawer iawn o berswâd i ganiatáu i ni weithio gyda'u plant. Fodd bynnag, bu'r canlyniad yn wych gyda phawb a gymerodd ran wedi dysgu llawer fel y medrwn symud ymlaen ac ymestyn y cynllun.

Mae Cyfeillion yn gweithio ar sail un i un gyda'r plant ac roeddent ar y safle i gynnig cefnogaeth yn ddiffwdan. Roeddent yn gwisgo'r un crysau T â'r gweithwyr eraill ar y safle ac wedi'u cyfarwyddo i roi'r rhyddid i'r plentyn i chwarae gyda'r plant eraill. Cysylltodd y cyfeillion yn ddyddiol gyda rhieni. Cyflogwyd un o'n Gweithwyr Chwarae Cymunedol i oruchwylio a chydlynu'r cyfeillion a threuliodd oriau yn siarad gyda hwy a rhieni i gadw'r cyfathrebu hanfodol oedd ei angen. Gofynnwyd i bob un o'r cyfeillion gadw dyddiaduron am eu profiadau a buont yn adroddiadau defnyddiol ac onest iawn o'u gwaith gyda'r plant.

Ar gyfer y cynllun peilot sefydlwyd cyfarfodydd/sesiynau chwarae penodol yn Nhŷ Catherine Gladstone (Gwasanaeth Anabledd Integredig Plant) i gwrdd gyda phlant a rhieni. Er mwyn datblygu ac ychwanegu at gynlluniau'r dyfodol, bwriadwn gyflwyno'r Cyfeillion i'r teuluoedd mewn da bryd cyn y cynlluniau fel y medrant ddod i adnabod y plentyn unigol a lefel y cymorth sydd ei angen er mwyn symud tuag at ddynesiad holistig at eu hanghenion chwarae.

Os hoffech wybod mwy am y cynllun hwn, cysylltwch â Janet Roberts, Swyddog Datblygu Chwarae Cyngor Sir y Fflint ar 01352 702469.

Chwarae am lechyd Bryn Gwalia a Ward Castell y Fflint

Mae'r prosiectau 'Chwarae am lechyd' a ddechreuwyd yn ein hardal yn 2004 yn wynebu llawer o heriau yn y byd modern ar wedd gorsafodd chwarae, cyfleusterau siopa allan o'r dref a'r cynnydd tybiedig mewn perygl dieithriad. Eto mae'r ddau brosiect wedi llwyddo i herio agweddau rhieni a thueddiadau modern a anelwyd at blant. Mae'r ddau brosiect wedi ymrwmo plant mewn cyfleoedd chwarae mynediad agored diddorol, heriol a chyffrous sydd wedi eu hanelu i ddatblygu plant yn feddyliol, corfforol a chymdeithasol.

Enghreifftiau o brosiectau yw:

- Darpariaeth chwarae mynediad agored allan o oriau
- Prosiect celf Maes Gwyn
- Dyddiau blasu ar gyfer plant a rheini
- Prosiect chwarae amgylcheddol
- Ymweliadau i feysydd chwarae antur a pharciau sglefrio
- Ymgynghoriadau chwarae
- Cynnwys Campau'r Ddraig mewn sesiynau chwarae
- Sesiynau dawns a gweithgareddau eraill nad yw llawer o blant yn cael cyfle i'w profi fel arfer

Datblygodd y prosiectau drwy angen a ddynodwyd. Ym Mryn Gwalia mae'r nifer fwyaf o achosion o dlodi plant yn Sir y Fflint, a dywedir mai Ward Castell y Fflint sydd â mwyaf o "ymddygiad gwrthgymdeithasol". Mae'r ddwy yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ond drwy ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a rhieni, dynodwyd fod y ddwy ardal yn dioddef o ddifreintedd chwarae a chrëwyd dwy swydd unigryw fel ymateb uniongyrchol i hyn.

Gwelodd y 18 mis diwethaf ddatblygiadau yn y ddau faes ac mae'r prosiectau yn ymrwmo plant a phobl ifanc gyda chyfleoedd chwarae cyffrous sy'n galluogi plant i chwarae'n rhydd, i fynegi eu hunain mewn amgylchedd sy'n rhydd o risg amhriodol.

Mae'r prosiectau hefyd wedi helpu i ymrwmo rhieni gyda gweithgareddau cymunedol ehangach a all fod ag effaith dybiedig ar ostwng lefelau straen ar deuluoedd a chynnyddu cefnogaeth deuluol. Daeth nifer o rieni yn wirfoddolwyr yn y prosiectau ac mae dau wedi mynychu'r hyfforddiant cynefino gwaith chwarae Lefel Dau a gafodd ei redeg mewn cysylltiad â Chyngor Sir y Fflint. Gall hyn fod â rôl wrth wella eu hunanhyder a'u hunan barch.

Gosodwyd y sylfeini ar gyfer datblygu chwarae ym Mryn Gwalia a Ward Castell y Fflint. Mae'r dynesiad partneriaeth at y gwaith hwn wedi dechrau mynd i'r afael â difreintedd chwarae ar nifer o lefelau. Bydd cydweithredu yn y dyfodol yn rhoi cyfleoedd pellach i blant a phobl ifanc gael dyfodol iach.

**Liz Hughes, Gweithwraig Ieuencid a Datblygu Chwarae
Ward y Castell, Sir y Fflint
Cyswilt: 01352 734485**

CHWARAE MEWN PARCIAU A GOFODAU AGORED

Hwyl Diwrnod Chwarae

ym Merthyr Tudful

Cynhaliwyd dathliadau diwrnod chwarae eleni ym Merthyr Tudful yn un o'r parciau cymunedol mwyaf yn y fwrdeistref. Cydlynwyd y digwyddiad gan Fforwm Chwarae Merthyr Tudful gyda help a chefnogaeth gwahanol asiantaethau chwarae a gofal plant o bob rhan o'r bwrdeistref.

Ffurfiwyd grŵp llywio diwrnod chwarae cyn y digwyddiad er mwyn trefnu a chydlynu gweithgareddau, gyda Fforwm Chwarae Merthyr Tudful yn arwain yn y grŵp llywio. Gydag ychydig iawn o arian ac adnoddau, penderfynwyd y byddem yn galw ar gynifer o asiantaethau ag y medrem i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau ar y dydd. Roedd cydlynu'r digwyddiad yn broses hir, gan gymryd llawer o wythnosau a chyfarfodydd. Talodd y gwaith caled ar ei ganfed, gyda'r digwyddiad yn llwyddiant mawr. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran.

Ar y Dydd

Roedd y digwyddiad yn un i'r holl fwrdeistref. Gan mai'r thema oedd "Ffit i Chwarae", credem y byddai'n addas i ddarparu cymaint o weithgareddau egniol ac awyr agored ag y medrem, gan gynnwys: llithrennau dŵr, adeiladu cuddfannau, chwarae darnau rhydd/amgylcheddol, sgiliau syrcais, cestyll bownsio, Campau'r Ddraig a llawer mwy.

Bu'n ddiwrnod gwych, gyda thua 800-900 o ymwelwyr ar gyfartaledd. Bu plant o nifer fawr o gynlluniau chwarae haf yn bresennol ynghyd â llawer o ymwelwyr o'r tu allan i'r fwrdeistref. Ymunodd Maer Merthyr Tudful yn y dathliadau a gwlychu at ei groen – llawer o ddiolch iddo am ei gefnogaeth.

Roedd yr adborth gan rieni a phlant yn galonogol a chefnogol iawn:

“Fedrwn ni gael diwrnod chwarae bob mis?”

“Dyma'r diwrnod chwarae gorau i mi fod arno erioed”.

“Mae plant Merthyr angen mwy o hyn ...”

Beth fedraf ei ddweud? Roedd yn wych gweld cynifer o blant yn gwenu, yn cael hwyl, yn baeddu ac yn wlyb, dyna oedd prif nod y diwrnod. Yn ogystal â bod yn ddiwrnod hwyliog a chyffrous i'r plant, helpodd i godi proffil chwarae ym Merthyr



Islaw: Plant yn chwarae yn yr awyr agored mewn cynllun chwarae cynhwysol yng Nghaerdydd



Tudful, gan gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae i ddatblygiad plant, sut mae gofod chwarae da awyr agored a gweithgareddau chwarae corfforol yn ffactorau hollbwysig i ddatblygu plant iach ac egniol.

Sarah Williams, Cydlynnydd Digwyddiad –

Gweithwraig Datblygu Gofod Chwarae, Fforwm Chwarae Merthyr Tudful

Medrir cysylltu â Sarah ar 01685 353960.

CHWARAE MEWN PARCIAU A GOFODAU AGORED

Cruisers Talysarn – geni parc sglefrio

Mae Cruisers Talysarn yn grŵp cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr a ffurfiwyd ym mis Mai 2001 mewn ymateb i angen a fynegwyd gan bobl ifanc yng nghymunedau Talysarn a Nantlle yng Ngwynedd i sefydlu parc sglefrio. Cawsant gyllid maes o law drwy gynllun Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Aethom ati i ganfod lleoliad addas – roedd darn diffaith o dir ar hen safle'r Gloddfa Glai yn Nhalysarn yn ddefnyddol; o fewn golwg rhywydd o'r pentref, ond heb fod yn rhy agos i swm fod yn broblem. Gyda grant o £64,000 a sicrhawyd drwy



Diwrnod Agored Antur Waunfawr
2005-12-29

Gyngor Gwynedd, agorwyd ein parc sglefrio erbyn Haf 2003. Er mwyn i ni edrych am fwy o gyllid grant i wella'r safle ac i fod yn berchnogion y parc sglefrio, bu'n rhaid i ni ffurfio fel corff atebol gyda chyfansoddiad a chyfrif banc. Roedd yn rhaid i ni hefyd gytuno i les 30-mllynedd o'r safle gan Gyngor Gwynedd, lle trosglwyddodd perchnogaeth o'r safle i ni.

Rydym wedi datblygu cynllun pum mlynedd i ddatblygu'r parc fel canolbwynt y gymuned, a buom yn ddigon ffodus i dderbyn grant o £35,000 Cist Gwynedd i wella cyfleusterau ag amgylchedd y parc sglefrio. Mae'r safle wedi gwella'n sylweddol gyda chwblhau'r cam cyntaf hwn, a gobeithiwn ddenu buddsoddiad pellach yn y dyfodol agos i ddatblygu ardal gardd gyda meinciau picnic a seddi ar gyfer pobl i eistedd ac edrych ar ein sglefwrwr ifanc.

Ein prif gyfrifoldebau fel pwyllgor yw sicrhau fod gennym ddigon o arian i dalu am ein hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, sy'n sugno cronfeydd prin, ac i gynnal arolygiadau diogelwch wythnosol o'n hoffer. Ni ddaw cyfrifoldebau rhedeg parc sglefrio i ben yno, fodd bynnag. Er mwyn cadw ymrwymiad ein pobl ifanc, rydym wedi gwneud cais am cyllid i ddarparu gweithgareddau cysylltiedig: yn 2004 derbyniwyd cyllid grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Mantell Gwynedd a Chronfa Ymddriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf i gyflogi artist preswyl am chwe wythnos. Mae'r plant a phobl ifanc (yn amrywio mewn oedran o 6-21 oed) sy'n defnyddio'r parc yn cymryd rhan agos iawn gan ddewis Bryce Davies i gynnal gweithdai Celf Stryd – a arweiniodd at chwistrellu'r cynlluniau ar y rampiau sglefryddio. Rydym hefyd wedi ymweld â pharciau sglefrio ymhellach i ffwrdd, a threfnwyd cwrs Cymorth Cyntaf a fu o fudd mawr i ddau o'r aelodau a fedodd helpu person ifanc a gafodd drawiad epileptig. Yn 2005 gwahoddwyd y grŵp i arddangos yn Niwrnod Agored blynyddol Antur Waunfawr, ac am dri diau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Stad y Faenol yn arddangos Celf Stryd yn stondin Cyngor Gwynedd.

Fel gwirfoddolwyr, nid yw bob amser yn rhwydd. Gall cyflogwyr heb gydymdeimlad wrthod caniatâd i wneud a derbyn galwadau ffôn yn ystod oriau gwaith, ac wrth gwrs mae'r rhan fwyaf o bobl y mae angen i chi gysylltu â hwy yn gweithio'r un oriau hynny. Mae ceisio casglu cefnogaeth gan rieni yn frwydr gyson a siomedig. Fodd bynnag, mae gwella'r cyfleusterau i blant a phobl ifanc yn ein cymuned yn wobrr ynddo'i hunan, yn arbennig gweld eu mwynhad a



Mynd am drip i Barc Sglefrio Dan Do Boneyard



Celf Stryd yn Eisteddfod Genedlaethol y Faenol 2005



faint o ddefnydd a wneir o'r parc sglefrio. Mae'r ffaith nad yw wedi dioddef unrhyw ddirodd o fandaliaeth hyd yma yn dweud cyfrolau, ac mae llai o gwynion am grwpiau yn gwag-symera ar gorneli stryd.

Yr anhawster mwyaf sy'n ein hwynebu yw'r angen am Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus blynyddol. Costiodd hyn £850 i ni eleni, a dywedwyd wrthym am drefnu am gynydd blynyddol o 10% p'un a wneir cais neu beidio. Mae hwn yn swm enfawr mewn ardal ddiifreintiedig a heb unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdodau lleol, medrai methiant i godi'r arian hwn yn y tymor hir ein hatal rhag cadw'r cyfleuster yn agored.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â Carys Pritchard ar 01286 881103 neu e-bost caryspritchard@aol.com

Cynhadledd Ryngwladol

yn chwarae tu allan

FEZ

Cyfarfu aelodau o dîm Chwarae Cymru a ymwelodd â'r Gynhadledd Cymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) yn Berlin â Dr Ute Navidi, Cyfarwyddyd London Play, mewn parc gwiriadeddol ysbrydoledig. Fel rhan o'n cyfres o erthyglau rhyngwladol, mae'n rhoi rhai o'i sylwadau:

Daeth gweithwyr chwarae proffesiynol o bob rhan o'r byd ynghyd yn y 16eg Cynhadledd Cymdeithas Chwarae Rhyngwladol a gynhaliwyd yn Berlin haf diwethaf. Roedd rhaglen ddiddorol ac amrywiol o ddarlithoedd, gweithdai ac ymweliadau, ond ganol yr wythnos manteisiodd llawer o'r cynrychiolwyr ar y cyfle o newid yn y digwyddiadau. Wedi'r cyfan, thema dydd Mercher oedd 'y gynhadledd yn chwarae'. Aethom ar ymweliad bws i FEZ Wuhlheide, gan fynd drwy Ddwyrain Berlin, ac am beth o'r ffordd ar hyd yr ychydig o rannau gwreiddiol o Fur Berlin sy'n dal yn eu lle. Mae'r ddinas yn rhyfeddol o wyrdd: mae chwarter arwynebedd Berlin yn afonydd a llynnoedd, coedwigoedd a pharciau. Nid yw natur byth yn rhy bell i ffwrdd yn yr amgylchedd trefol hwn.

Er na ddeallai cynrychiolwyr cynhadledd IPA i ddechrau beth oeddent, daeth y llythrennau FEZ yn frand cydnabyddedig ar gyfer hamdden ac adloniant egniol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion Berlin. Bob blwyddyn mae'r parc hamdden yn croesawu mwy na miliwn o ymwelwyr, gan wahodd teuluoedd cyfan i arhosiad awyr agored egniol. Gyda'i athroniaeth o ddatblygu gallu beirniadol pobl ifanc, a'u gallu i wneud penderfyniadau, cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu

hunain a chyfranogiad cymdeithasol, nid yw'n syndod i FEZ gael y marciau uchaf yn ymgyrch 1999 'Kinder testen Berlin' (prawf plant Berlin). Gwnaeth i mi dybio a ddylai trefi a'n dinasoedd ni ddilyn yr un prawf.

Mae hanes y lle yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gweithgareddau heddiw. Mae'n tarddu o'r 1920au pan ddatblygwyd y syniad 'parc coedwig' gan y symudiad parciau'r bobl. Mae'n gyfuniad 290 erw o goedwig a pharc a ddefnyddir yn helaeth. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd y parc fel ardal a chysgodfan i ochel rhag awyrennau, yn ogystal â gweryll carchar milwrol. Dyna pam y cafodd cymaint o'r parc a'i adeiladau eu dinistrio yn ystod y rhyfel. Ar ôl 1945 daeth ardal gogledd y parc yn wersyll milwrol i'r Comander Dinas Sofietaidd. Ar ôl rhannu'r Almaen, bu'n rhan o Ddwyrain Berlin, prifddinas Gweriniaeth Ddemocrataidd yr Almaen. Yn 1951 bu'r parc yn gartref i 3ydd Gŵyl Ieuencid y Byd. Dechreuodd ailadeiladu graddol ar ôl ailuno'r Almaen.

Gyda chymaint o hanes iddo, mae llawer o Barc y Bobl heddiw yn cael ei adael i dyfu'n wyllt. Y FEZ, yn ei gornel deddwyreiniol, yw canolfan hamdden dielw mwyaf Ewrop ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys parc mawr gyda choedwigoedd, llynnoedd, llociau bywyd gwylt, theatr awyr agored, ardaloedd chwarae, gardd farchnad, trac BMX, pibelli sglefrfyrdio, caeau chwaraeon, llwybrau seiclo, ardaloedd tawel a "Lieegewiesen" – dolydd i orwedd ynddynt. Gall plant hyn yrru trên stêm drwy'r parc a gweithredu fel arolygwyr tocynnau. Mae tŷ gwydr trofannol ecogyfeillgar a chanolfan hamdden ac adloniant 13,000 metr sgwâr gyda phwll nofio dan do a gofod ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau eraill, Amgueddfa Plant a Chanolfan Ofod unigryw. Mae'n debyg y byddai llawer o'r hyn a welais yn ymddangos yn ddiolwg i oedolion gyda barn draddodiadol o sut olwg ddylai fod ar barc – ond nid parc i oedolion oedd hyn ac roedd yn amlwg fel plant yn ei weld fel lle o ryfeddod. Roeddent yn ei ystyried fel eu hamgylchedd hwy, eu tiriogaeth hwy.

Mae gan staff FEZ gymwysterau proffesiynol mewn meysydd diwylliannol, pedagogaid a thechnegol, ac maent yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Gweithiant mewn



Plant yn coginio cinio dros dân agored, FEZ



Byd y Rhyfeddodau, FEZ



Hwyllo yn yr Olympiad fydd nesaf, FEZ



Gosod rhaffau gyda siswrn a thâp, FEZ

timau prosiect hyblyg yn ôl anghenion plant a phobl ifanc – mae ystod sy'n newid yn barhaol o gyfleoedd chwarae a ddewisir yn rhydd ar gael.

Risg – pa risg?

Felly beth welsom ni yn FEZ? Wel, yn dod o Brydain, cafodd rhai ohonom ein synnu ond yn falch iawn i weld plant yn cymryd rhan mewn ystod gyfan o weithgareddau awyr agored a ystyrir yn aml fel bod â 'gormod o risg' yma. Mae'r lluniau'n dweud mwy na mil o eiriau – plant yn coginio stiwdios dros dân gweryll canoloesol, torri coed tân gyda bwyell,



Adeiladu cerbyd, FEZ

Islaw: 'Darnau rhydd', FEZ



padlo ar y llyn, dringo strwythurau, ar siglenni, gweithio gyda sgridreifers a driliau trydan a dŵr. Dywedwyd wrthym na fu damwain ddifrifol erioed. Roedd oedolion o amgylch ond heb fod yn agos, roedd rhieni yn eistedd yn ôl a gadael i'w plant grwydro. Ymddiriedwyd mewn plant i fedru gwneud eu penderfyniadau eu hunain a chymryd rhan ar eu lefel eu hunain. Roedd yn amlwg iawn i'r holl le gael ei gynllunio o'u hamgylch ac i ateb eu hanghenion.

Felly, fel yr oeddwn yn crwydro o amgylch y safle enfawr, i fyny ac i lawr brynau mwd, cwrdd ag anifeiliaid enfawr wedi'i gwneud o hen goed, ar hyd llwybrau lle'r oedd plant yn rhoi cynnig ar gerbydau yr oeddent wedi eu hadeiladu eu hunain, yn ymyl stablau lle'r oedd plant heb fod fawr mwy na phedair blwydd oed yn glanhau gyda ffyrchau enfawr, gweld plant dan 5 yn padlo ar ben eu hunain mewn cychod ar y llynnoedd, cofiais am rywbeth a ddywedodd y Prif Weinidog Tony Blair yn gynharach eleni. Yn ei araith mewn seminar ym Mai 2005¹, dywedodd ein bod

mewn perygl o fod ag agwedd hollol anghymesur i'r risgiau y dylem ddisgwyl eu hwynebu fel rhan arferol o fywyd. Dywedodd na fedrwn ymateb i bob damwain drwy geisio gwarantu diogelwch llwyr. Ni fedrwn ddileu risg, mae'n rhaid i ni fyw gydag ef, ei reoli. Weithiau mae'n rhaid i ni dderbyn nad oes neb ar fai. Dyma'r fath o ddynesiad synnwyr cyffredin a welais o'm hamgylch ym mhobman yn y parc.

Atgoffodd ymweld â FEZ a sylwadau'r Prif Weinidog am y ddadl a gyflwynwyd gan Bob Hughes yn 'Evolutionary playwork and reflective analytic practice' (2001)² bod dod ar draws a goresgyn risg yn rhan arferol o fywyd beunyddiol plant ond yn rhy aml heddiw fod plant yn cael eu hatal rhag gwneud gweithgareddau lle mae risg os nad yw oedolion yn tybio fod y gweithgareddau hynny yn ddiogel. Mewn gwirionedd, ni fedrant fod yn ddiogel a bod â risg. Mae'n ein rhybuddio i beidio drysu risg gyda pherygl. Dywed fod risg yn rhywbeth mae plant yn ei adnabod ond na all plant asesu perygl.

Ond yn ôl at FEZ a chynhadledd IPA. Cafwyd nifer o gyfraniadau diddorol tu hwnt o bob rhan o'r byd mewn gweithdy ar Risg mewn Chwarae, a hwyluswyd gan Robin Sutcliffe, Cadeirydd Fforwm Diogelwch Chwarae Ewropeaidd. Dangosodd cyflwyniad gweledol gan Shoko Ohmura a chydweithwyr agweddau plant at gymryd risg ym Maes Chwarae Antur Hanegi yn Tokyo. Rhoddasant enghreifftiau o blant yn chwarae'n hapus mewn sefyllfaedd y byddai'r rhan fwyaf o oedolion yn ystyried fel bod â risg annerbyniol, er enghraifft ar do'r adeilad chwarae. Pwysleisiodd Fernando Pereira o Brifysgol Dechnegol Lisbon brofiad dysgu 'methiannau addfwyn'. Felly nid dim ond mynd â sylw pobl ym Mhrydain mae hyn, mae pobl ym mhob rhan o'r byd yn adeiladu dadleuon am fwy o gyfleoedd cymryd risg i blant a phobl ifanc.

Cyflwynodd Robin fanifesto newydd Fforwm Diogelwch Chwarae Ewropeaidd. Dywedodd y gall y graddau y cawn ein cyflawni fel bodau dynol ddibynnu ar y graddau yr ydym yn barod i gymryd risgiau a bydd ein gallu i gymryd risgiau, yn ei dro, yn dibynnu ar brofiadau chwarae ein plentyndod. Fel Datganiad Safbwynt Fforwm Diogelwch Chwarae'r Deyrnas Unedig "Managing Risk in Play", mae'r Manifesto wedi ei anelu at bawb sydd â diddordeb mewn diogelwch plant yn ogystal â'r amgylchedd y maent yn chwarae ynddo.

Cadarnhaodd yr ymweliad i FEZ fy marn ein bod yn analluo plant wrth eu trin fel anghymwys ac y gall diffyg cyfleoedd chwarae heriol mewn meysydd chwarae atal plant rhag dysgu sut i ddelio gyda perygl a'u diogelu eu hunain. Mae tystiolaeth gynyddol fod cyfradd damweiniau yn gostwng, nid cynyddu, pan ailgynllunnir gofodau chwarae i roi pethau mwy diddorol i'w gwneud a phlant yn mynd i'r afael gyda rheoli risg eu hunain. Mae'n rhaid i ni – pawb ohonom – ddysgu gadael i blant gymryd rhai risgiau wrth chwarae a chydabod eu bod yn gyd-ddinasyddion cymwys a deallus.

Daeth y diwrnod yn FEZ i ben gyda pharti barbiciw traeth Islywydd yr IPA. Yn anffodus, daeth y glaw – a phobl yn cysgodi dan gazebos ac mewn pabell fawr – roedd yn olygfa ffarfarydd iawn i bawb o Brydain. Ond roedd yr awyrgylch yn dda a'r cyfle i rwydweithio a chyfnawid syniadau ar lefel ryngwladol yn werthfawr tu hwnt. Do – bu'r gynhadledd yn chwarae – a bu bron iddi golli'r bws yn ôl i ganol Berlin!

Os hoffech wybod mwy am y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol, ewch i www.ipaworld.org

¹ Seminar 'Future Challenges – Living with Risk' Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR), Mai 2005

² Ar gael ar wefan Chwarae Cymru www.chwaraecymru.org.uk/dalenni ffiethiau neu yn www.nac.org.uk/library/cpis

HYFFORDDIANT HYFFORDDIANT

Beth sydd mewn enw?

Pan roddwyd cyfle i mi ysgrifennu pam erthygl am p'un ai oes gwahaniaeth rhwng rôl gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae heblaw'r gwahanol deitlau swydd, roeddwn yn edrych ymlaen at y cyfle.

Rwyf wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yn y sector gwaith chwarae/gofal plant ers 1970. Gan weithio i ddechrau yn Birmingham fel gwirfoddolydd ar faes chwarae antur ac fel aelod o staff y Gymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn-ysgol, symudais i Gymru yn 1974 a bum yn ymwneud â sefydlu a rheoli grwpiau chwarae a chynlluniau chwarae haf yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Yn fwyaf diweddar bûm yn ymwneud â sefydlu a chydlynu un o'r clybiau allan o'r ysgol cyntaf yn Abertawe. Gwelais lawer o newidiadau yn ystod yr amser hwnnw, mae gwahanol strategaethau wedi mynd a dod, a bu llawer o uchafbwyntiau a siomedigaethau i'r sector.

Daeth y pleser mwyaf i mi o gwrrd a dysgu gan y llu o blant sydd wedi mwynhau'r gwahanol gyfleoedd i chwarae yn eu dull eu hunain ac i edrych fel y datblygodd eu hyder ac y cafodd eu dychymyg ryddid i dyfu. Gofid parhaus fu'r diffyg parch yr

ymddengys sydd gan rai staff yn gweithio mewn gwahanol rannau o'r sector tuag at ei gilydd.

Mae'n awr yn ymddangos fod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy gyfrwng chwarae yn "weithiwr chwarae". Rwy'n dal i deimlo ei fod yn dibynnu ar ba gyfarfod yr ydych ynddo a gyda pha unigolion os yw hyn yn farn a dderbynnir yn gyffredinol – yn arbennig os yw'r cyfarfod yn ymwneud â dosbarthu cyllid. Yn bersonol, rwyf i wedi dewis yn y gorffennol y term hybrid "gofalydd chwarae" yn hytrach na "gweithiwr chwarae" – betio bob ffordd efallai.

Mae meddwl beth i'w ddweud yn yr erthygl hon wedi codi mwy o gwestiynau nag o atebion: pan holais gydweithwyr yn gweithio mewn clybiau os mai "gweithiwr chwarae" neu "ofalydd plant" yr ystyriant eu hunain, cafwyd atebion fel "Mae hynny'n anodd ei ateb ..", "Dwi ddim wedi meddwl am hynny o'r blaen .." a "Wn i ddim, y ddau mae'n debyg". Pan ofynnwyd iddynt, ateb cadarn rhai oedd "Gweithiwr Chwarae".

Yn adnoddau hyfforddiant Clybiau Plant Cymru, rydym wedi penderfynu defnyddio'r geiriau gweithiwr chwarae a

gofalydd plant yn rhyngnewidiol. Caiff staff sy'n gweithio mewn clybiau allan o'r ysgol eu hannog i ddilyn Tystysgrif CACHE Lefel II mewn Gwaith Chwarae a Diploma Lefel III mewn Gwaith Chwarae.

A yw o bwys beth a alwn ein hunain? Mae'n sicr gen i fod argaeledd amrediad o gyfleoedd chwarae ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gyda gweithwyr ymroddedig, blaengar a brwdfrydig yn bwysicach. Ar gyfer y staff, y cyfan y medrwn obeithio amdano yw parch at ein gilydd a chydabyddiaeth o werth ein gilydd, gan wyntyllu a rhannu yr hyn sy'n debyg rhyngom yn ogystal â'n gwahaniaethau – yn arbennig gyda thebygrwydd rolau mwy aml-swyddogaeth.

Jan Oliver

Rheolydd Hyfforddiant Cenedlaethol Clybiau Plant Cymru
Tachwedd 2005

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cychwyn dialog ar y pwnc? Fe'ch gwahoddir i ymateb i erthygl Jan – anfonwch eich sylwadau at y golygydd yn info@playwales.org.uk.

Aelod Newydd o'r Tîm

Mae tîm Chwarae Cymru yn croesawu **Richard Trew, Rheolydd Prosiect newydd ein cynllun Cwlwm. Ariennir y rhaglen gan raglen EQUAL. Ysgrifennodd Richard:**

Cefais fy magu yn y Barri lle treuliais lawer o fy mhentyndod chwarae yn nofio yn nŵr oerllyd lido'r Barri. Mae gen i dri brawd, pob un ohonynt wedi bod yn weithwyr chwarae ar ryw amser, felly mae'n debyg fod gweithio gyda phlant yn ein gwaed.

Roedd fy ngyrfa gyntaf fel cerddor proffesiynol ond yn 1987, yn dlawd ac angen saib, cymerais swydd dros yr haf



yng Nghaerdydd yn gweithio gyda phlant. Dwi ddim yn siŵr beth oedd am yr haf cyntaf hwnnw (efallai'r swigod a achoswyd yn tyrchu tyllau ar gyfer strwythur chwarae gyda Doug Cole) ond cafodd y peth afael arnaf mewn modd mawr. Ar ôl gweithio fel gweithiwr chwarae, ac yna fel gweithiwr datblygu, symudais maes o law i

hyfforddiant gwaith chwarae ar gyfer Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd.

Beth fydd fy ngwaith fel Rheolydd Prosiect?

Fy ngwaith yw goruchwyllo datblygiad deunyddiau hyfforddiant blaengar ar gyfer gwaith chwarae ar lefel cynefino a lefelau 2 a 3 yn ogystal â dyfarniad 'hyfforddi'r hyfforddwr'.

Bydd y deunyddiau a gynhyrchir yn rhoi profiad cyffrous i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar egni chwarae plant ac yn ymchwilio agendâu oedolion ehangach drwy'r persbectif hwn. Yn hynny o beth, bydd yr hyfforddiant yn adlewyrchu ethos a phwyslais yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a'r Hawl Cyntaf. Bydd yr hyfforddiant yn cyfuno'r wybodaeth, ymarfer ac adfyfyriad sy'n hanfodol ar gyfer hwyluso chwarae plant yn llwyddiannus.

Rwyf wrth fy modd i ymuno â Chwarae Cymru ac yn edrych ymlaen at ddod i adnabod y tîm ac wynebu'r heriau o'n blaenau.

Richard Trew

HYFFORDDIANT HYFFORDDIANT

Mwd a Gwreichion

Yn gynharach eleni daeth gweithwyr chwarae o bob rhan o Dde Cymru ynghyd ym Mharc Margam ger Port Talbot am ddiwrnod o hyfforddiant ar hwyluso chwarae gyda'r elfennau. Mae Mwd a Gwreichion (hynny yw pridd/dŵr ac aer/tân) yn ddigwyddiad rhannu sgiliau a gefnogir gan Chwarae Cymru, lle mae'r rhai gyda'r wybodaeth yn trefnu cyfleoedd i eraill ganfod hyfrydwch ac ymarferoldeb cynnig profiad o'r elfennau i blant. Esboniodd Lisa Williams o Brosiect Chwarae Creadigol Caerffili:

Gyda thîm o ymgynghorwyr fe aethom ar daith drwy ddeiliach Parc Margam i ardal bellennig yn berffaith ar gyfer arbrofi ym mhob math o weithgaredd a rhyngweithiad yn defnyddio pethau a roddodd natur i ni.

GWREICHION

Ychydig iawn o reolau, rheoliadau neu ffiniau oedd (yn union fel yr ydym ni weithwyr chwarae yn ei hoffil) wrth i ni adeiladu mân dannau (fe wnaethom dwyllo a defnyddio matsis fel arall byddai wedi cymryd drwy'r dydd!) ac yn ddiweddarach ei ddefnyddio i goginio bwyd – a roddodd foddhad mawr.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio offer a gwneud offerynnau cerdd yn defnyddio amrywiaeth o wahanol adnoddau. Roedd yr ymdeimlad o le a phreifatrwydd yn golygu y medrem wneud digonedd o sôn – chwerthin gan bennaf.

MWD

Roedd yn un o'r dyddiau hynny pan oedd y tywydd yn anodd ei ragweld, ond yna medrech ddweud na chafodd dim am ein diwrnod hyfforddi ym Margam ei ragweld! Nid yn unig yr oeddem yn ymwneud gyda'r



mwd a phridd a'r nant, cawsom hefyd ein dal mewn storm o law anferthol. Yn hytrach na gadael i hyn ddifetha ein sesiwn, penderfynodd llawer ohonom goleddu'r tywydd a gwneud y gorau allan o dywydd Cymru.

Gwnaethom guddfannau o fewn y coed, yn ogystal â phontydd rhaff a siglenni, fy ffefrynnau personol – gan eu treialu drwy sgrechian mewn gorfoledd wrth i ni siglo i mewn i'r coed.

CANLYNIADAU

Erbyn diwedd y dydd roeddem yn oer, wedi blino, yn newynog, budr ac yn gleisiog, ond medraf siarad dros lawer ein bod yn hapus ac wedi ein hysbrydoli. Atgoffodd dysgu drwy brofiad ni am rai o'r teimladau rhyfeddol a gawsom fel plant a dangos



mewn ffordd wych ein harwyddocâd fel gweithwyr chwarae. Mae mor syml ac eto mor effeithlon a phwysig nad ydym ni fel gweithwyr chwarae yn anghofio am y teimladau hyn – fel y medrwn werthfawrogi'r profiadau sy'n eu creu a'u cynnwys yn ein hamgylchedd chwarae.

Ers y diwrnod Mwd a Gwreichion, mae'n tîm yn Llaineirwg wedi cymryd camau i ymestyn a gwerthfawrogi rhyngweithiad gyda natur o fewn ein gosodiad chwarae – daw'r bonllefau o bleser yn awr o'r plant wrth iddynt siglo yn y coed.

Gellir golchi baw i ffordd, medrir trwsio dillad, bydd briw neu anaf yn iachau ond mae'r parch at natur a datblygiad personol ac ymdeimlad o lwyddiant a boddhad y gall plant ei ennill o chwarae gyda'r elfennau yn wirioneddol amhrisiadwy.

I gael gwybodaeth bellach am hwyluso chwarae gyda'r elfennau gweler "YR HAWL CYNTAF – fframwaith ar gyfer asesiad gwaith chwarae o ansawdd" a ysgrifennwyd gan Bob Hughes ac a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru.



DIGWYDDIADAU

31 Ionawr a 1 Chwefror 2006 – 6ed

Cynhadledd Gwaith Chwarae Birmingham

Canolbwyntio ar chwarae a gwaith chwarae gyda thrafodaethau bwrdd crwn wedi eu hwyluso.
www.playworkconferences.org/6thconference

8 a 9 Chwefror 2006,

ILAM Play 2006, Wolverhampton

Cysyllter ag ILAM Services ar 0491 874800

17 a 18 Mai

Chwarae Ysbryd Antur 2006, Caerdydd

Dodwch y dyddiad yn eich dyddiadur newydd. Mae bob amser lawer o alw am leodd yng nghynhadleddau blynyddol Chwarae Cymru a derbynnir archebion yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Ffoniwch ni ar 029 2048 6050 neu e-bost phil@playwales.org.uk i wneud yn sicr o'ch ffurflen archebu.

CYLLID

Cronfa Amgylchedd Hanson

Mae Cronfa Amgylchedd Hanson wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer ei gynllun grantiau bach, a elwid yn flaenorol yn gynllun grantiau cymunedol. Mae cynllun 2005 yn cynnig grantiau o rhwng £250 a £4,000 i gadw neu greu bywyd gwyllt a chynefinoedd ar safleoedd gyda mynediad i'r cyhoedd, megis coetir wedi ei reoli. Mae hefyd yn rhoi arian ar gyfer adnewyddu meysydd chwarae. Manylion gan www.hansonenvfund.org

Cronfa Gymunedol Pentrefi Prydain

Mae'r gronfa hon yn darparu grantiau o rhwng £50-£500 i amrediad o brosiectau cymunedol megis cylch chwarae sydd angen tegantau ac offer chwaraeon i glybiau. I gael manylion pellach gweler www.ukvillages.co.uk/articles.nsf/content/ukvkitty

Ymddiriedolaeth elusennol gyffredinol J Paul Getty Jnr

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi arian i brosiectau sy'n helpu i liniaru tlodi ac yn ffafrio prosiectau cymunedol a lleol bychan sy'n gwneud defnydd da o wirfoddolwyr, a lle mae'r pwyslais ar hunangymorth, adeiladu parch a galluogi pobl i gyrraedd eu potensial. Y categorïau cyllid yw: lles cymdeithasol, troseddwy, cymunedau, digartrefedd, creu swyddi, lleiafrifoedd ethnig (yn cynnwys ffoaduriaid), celfyddydau, cadwraeth a'r amgylchedd. Mae canllawiau ar gael gan www.jpgettytrust.org.uk

DATBLYGU CHWARAE MEWN YSGOLION

"Mae angen i ni ein hatgoffa ein hunain mai i blant amser chwarae yw'r amser pwysicaf o'u diwrnod ysgol".

Yn dilyn ein rhifyn diweddar ar chwarae mewn ysgolion, derbyniodd Chwarae Cymru y sylwadau hyn gan Dave Underhill, Pennaeth Ysgol Trefonnen yr Eglwys yng Nghymru, sydd wrth ei fodd gyda'r gwahaniaeth a wnaeth offer chwarae newydd i ymddygiad plant. Ers gosod yr offer chwarae pren (yn dilyn ymgynghoriad gyda staff a phlant), bu gwelliant amlwg yng nghyflwr corfforol plant sy'n awr yn defnyddio'r offer bob dydd.

"Bu budd gweladwy i blant yng nghyswllt eu nerth, ystwythder a chydlynad", meddai.

Mae hefyd yn awgrymu fod eu hymddygiad cymdeithasol a lefelau canolbwyntio wedi newid er gwell. Bu rhieni yn gefnogol iawn i'r prosiect, a gostiodd tua £15,000.

"Bu hyn o fudd gwirioneddol i'r ysgol a rhieni yn ogystal ag i'r plant", meddai Mr Underhill.

Y CAM SYLFAEN YN YR AWYR AGORED –

Datblygu chwarae o ansawdd mewn ysgolion

Bu Chwarae Cymru yn cydweithio gyda Marc Armitage o Play People i ddarparu hyfforddiant i staff ysgol ledled De Cymru.

Bu dyddiau hyfforddiant mis Medi yn llwyddiannus iawn yng Nghastell Nedd a Chaerdydd. Cytunodd pawb a gymerodd ran ei fod yn gwrs difyr i ysbrydoli a'i fwynhau gyda llawer o syniadau ymarferol y meddir eu defnyddio mewn amrywiaeth o osodiadau. Roedd penaethiaid ysgol, athrawon, cynorthwywyr ystafell ddosbarth ac arolygwyr canol-dydd yn edrych ymlaen at eu gweithredu cyn gynted ag yr oeddent yn ôl yn eu meysydd chwarae ac ystafelloedd dosbarth. Roeddent yn frwd i adolygu eu hymarfer a symud ymlaen, a byddent yn argymhell yr hyfforddiant hwn i eraill.

Nodyn byr i adael i chi wybod sut mae pethau'n mynd yma yng Nghastell Nedd a Phort Talbot ar ôl eich ymweliad ym mis Medi. Wel, fe wnaethoch yn bendant ysbrydoli fy staff a buont yn frwd iawn i roi cynnig ar ddatblygu amgylchedd mwy cyfeillgar i chwarae.

Ddydd Llun yr wythnos nesaf rydym yn cael diwrnod cyfan yn gweithio gyda rhiant wirfoddolwyr ar wella'r amgylchedd awyr agored.

Jayne Loft, Pennaeth Ysgol Babanod Coedffranc

Mae awdurdodau lleol eraill yn manteisio ar y cyfle ac wedi trefnu cyrsiau ar gyfer Ionawr 2006. Os byddai gennych chi ddiddordeb mewn archebu'r cwrs hwn ar gyfer eich ysgol, cysylltwch â'n swyddfa genedlaethol ar 029 2048 6050 neu e-bost kathy@playwales.org.uk

CYFLE SWYDD • CYFLE SWYDD • CYFLE SWYDD • CYFLE SWYDD

SWYDDOG DATBLYGU (GOGLEDD CYMRU)

Mae Chwarae Cymru yn elusen annibynnol a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio strategol ac ymarfer pob asiantaeth a sefydliad sydd â diddordeb mewn chwarae plant. Rydym yn credu ym mhwyngywydd dybryd chwarae yn natblygiad pob plentyn ac yn ei hyrwyddo.

Bydd un o'n uwch swyddogion yn ymddeol yn Hydref 2006, a dymunwn recriwtio Swyddog Datblygu i weithio fel aelod o'n tîm cenedlaethol i gefnogi seilwaith datblygu chwarae yn genedlaethol ac yn neilltuol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Dylai ymgeiswyr fod â gwybodaeth gyfoes a chynhwysfawr o waith chwarae a bod yn brofiadol mewn datblygu cyfleoedd chwarae i

blant yn y sector awdurdod lleol a/neu sector gwirfoddol. Mae sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol da, hyblygrwydd a synnwyr digrifwch yn ofynnion hanfodol o'r swydd.

Telir y swydd ar PO3 pwyntiau 34-41, gan ddechrau ar £29,004 y flwyddyn, gyda chyfle i ymuno â'r cynllun pensiwn llywodraeth leol. Mae Chwarae Cymru yn ymrwymedig i arferion gweithio hyblyg.

I gael trafodaeth anffurfiol ffoniwch Mike Greenaway, Cyfarwydd, ar 029 2048 6050.

I gael manylion pellach a ffurflen gais cysyllter â Chwarae Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CH10 5FH neu e-bost jobs@playwales.org.uk.

Dyddiad cau dydd Gwener 27 Ionawr 2006. Cynhelir cyfweiliadau ar 2/3 Chwefror.